**DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984**

**CYNGOR SIR FYNWY**

# GORCHYMYN CYFUNO RHEOLIADAU RHEOLEIDDIO TRAFFIG, TERFYNAU CYFLYDMER A PHARCIO 2019 (GORHCHYMYN DIWYGIO RHIF 6) 2022

## DARPARU A DIWYGIO GORCHMYNION TRAFFIG O FEWN CYMUNEDAU AMRYWIOL YN SIR FYNWY

Mae Cyngor Sir Fynwy (y 'Cyngor') wrth arfer ei bwerau o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ('Deddf 1984) a Deddf Rheoli Traffig 2004 (Deddf 2004') a'r holl bwerau galluogi eraill, ac wedi ymgynghori gyda Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol gyda Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf 1984, felly yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**1 ENWI A CHYCHWYN** 31 Ionawr 2023

Bydd y Gorchymyn yma yn dod i rym ar..1.................. 2022 a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn Cyfuno Rheoliadau Rheoleiddio Traffig, Terfynau Cyflymder a Pharcio 2019 (Gorchymyn Diwygio Rhif 6) Sir Fynwy 2022.

**2 Y GORCHYMYN**

Mae'r Gorchymyn Cyfuno Rheoliadau Rheoleiddio Traffig, Terfynau Cyflymder a Pharcio 2019 yn cael ei ddiwygio drwy:

**MEYSYDD PARCIO**

**(a) Y diwygiadau canlynol i Atodlen 2:**

**(i) Ychwanegu ar ôl Rhif 43 ar Dudalen 52**

| Enw'r Lle Parcio | Math o Gerbydau sy'n medru defnyddio'r maes parcio | Diwrnodau pan fydd hyn yn weithredol | Oriau Gweithredol y Maes Parcio | Ffi Parcio ar gyfer y Cerbydau a Ganiateir | Uchafswm ar gyfer aros yn y maes parcio |
|---|---|---|---|---|---|
| 44. Maes Parcio Cyffordd Twnnel Hafren | Cerbydau a Ganiateir | Pob dydd | Pob awr | £3 Drwy'r dydd | Dim Terfyn Amser |
| 45. Maes Parcio Parc Gwledig Rogiet | Cerbydau a Ganiateir | Pob dydd | Pob awr | 3 awr gyntaf am ddim £5 am y Diwrnod wedi hyn | Dim Terfyn Amser |

(ii) **diwygio disgrifiad Rhif 37 ar Dudalen 50 o "Maes Parcio Wyebridge, Trefynwy" i Faes Parcio Stryd Wyebridge, Trefynwy a diwygio'r ffioedd fel a ganlyn:**

£1.50 ar gyfer y 2 awr gyntaf
£1.90 am 3 awr
£2.40 am 4 awr
£4.80 am y diwrnod
£18.00 am 5 diwrnod
£21.50 am 6 diwrnod
Tocyn ar gyfer Maes Parcio am Gyfnod Hir yn £430 y flwyddyn, £220 hanner blwyddyn, £110 bob chwarter

(iii) **ar Rif. 3 ar Dudalen 38, diwygio'r Golofn (2) drwy ychwanegu "Carafanau" a "Cerbydau Modur"**

(iv) **dileu "Taliad Cosb Goramser, yr awr gyntaf - £5.50" ble bynnag y mae hyn yn ymddangos yng Ngholofn (5)**

(b) **Yn Erthygl 1.9, yn gosod y diffiniad canlynol yn y lle priodol:**

**"Man Cerbydau Trydan" yn golygu gofod gyda Man Parcio sydd wedi ei neilltuo at gyfer cerbydau trydan ac fel sydd wedi ei ddynodi gan y marciau priodol.**

(c) **Bydd erthygl ychwanegol 7.1.20 yn cael ei hychwanegu fel a ganlyn:**

**"Ni fydd unrhyw berson yn achosi neu'n caniatáu i unrhyw gerbyd ac eithrio cerbyd trydan i fynd i mewn a pharhau yn y Man ar gyfer Cerbydau Trydan ac eithrio pan fydd y cerbyd wedi ei gysylltu ac ni ddylai unrhyw gerbyd aros yn y Man ar gyfer Cerbydau Trydan am fwy na 4 awr."**

**3 Traffig Ffyrdd**

(a) **Cyflwyno gwaharddiad ar Stryd Frogmore a rhan o Stryd y Llew, y Fenni, fel sydd wedi ei ddangos ar y cynllun sydd wedi ei atodi 1953. Mae gyrru felly wedi ei wahardd o ddydd Llun i ddydd Sul, rhwng 10am a 4pm ac o ddydd Llun i ddydd Sul rhwng 4pm a 10am, ac eithrio ar gyfer llwytho.**

(b) **Cyflwyno man parcio at gyfer beiciau modur yn Safle Fysiau y Fenni fel sydd wedi ei ddangos ar y cynllun sydd wedi ei atodi 1952**

**4. Bydd y teiliau cynllun presennol yn cael eu dirymu a'u disodli gan y teiliau cynllun diwygiedig fel sydd wedi ei restru isod:**

| Teil Presennol | Teil Diwygiedig Arfaethedig |
|---|---|
| AW56B | AW56C |
| AW57B | AW57C |
| AX57C | AX57D |
| AY57A | AY57B |
| | |
| | |

Yn cael ei roi o dan sêl gyffredin Cyngor Sir Fynwy ar y 8
diwrnod hwn o Mis Rhagfyr 2022

Ychwanegwyd Sêl Gyffredin

**Cyngor Sir Fynwy**

yma ym mhresenoldeb:-

Swyddog Awdurdodedig

441/22